# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

## Cyngor Gwynedd

**Blwyddyn archwilio:** 2010-11

**Cyhoeddwyd:** Medi 2011

**Cyfeirnod y ddogfen:** 490A2011

**Fersiwn drafft yw'r ddogfen hon tra bo trafodaethau pellach â'r corff a archwilir ac a arolygir yn yr arfaeth. Mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth wedi'i dilysu'n llawn eto ac ni ddylid ei dosbarthu'n helaeth.**

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 4 |
| Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad | 4 |
| **Atodiadau** | |
| Llythyr Sylwadau Terfynol | 8 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyngor Gwynedd | 12 |
| Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio atynt | 15 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1. Mae'r Archwilydd Penodedig yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd (y Cyngor) ar 31 Mawrth 2011 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 ar 30 Mehefin 2011, ac rydym erbyn hyn wedi cwblhau'r gwaith archwilio fwy neu lai. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwy sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dafydd Edwards, y Pennaeth Cyllid.
3. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
4. Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor yw £8.312 miliwn ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio, a £3.570 miliwn ar gyfer balansau eraill. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

5. **Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol** unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.
6. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

## Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

### Camddatganiadau nas cywirwyd

7. Nodwn isod y camddatganiadau a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi gwybod i ni am y rhesymau dros beidio â'u cywiro.

**Nid yw'r Cyngor wedi cydnabod rhwymedigaeth am gyfraniadau pensiwn ar yr elfen ôl-gyflog o'i setliad cyflog cyfartal.**

**8.** Gwnaeth y Cyngor setlo'r elfen ôl-gyflog o'i rwymedigaethau cyflog cyfartal gyda'r rhan fwyaf o staff perthnasol gyda dwy gyfran o daliadau, sef £2.383 miliwn yn 2007-08 a £464,000 yn 2008-09. Yn ogystal, mae cyfrifon 2010-11 yn cynnwys darpariaeth o £1.935 miliwn mewn perthynas â'r rhwymedigaeth bosibl sy'n weddill.

**9.** Yn ein barn ni, roedd newid i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Ieol (Budd-daliadau, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, a oedd yn weithredol o 30 Medi 2010 ond a gymhwyswyd yn ôl-weithredol o 1 Ebrill 2008, yn egluro bod yr elfen ôl-gyflog o setliadau cyflog cyfartal yn bensiynadwy. Ni wnaeth y Cyngor ddarparu ar gyfer cyfraniadau pensiwn ar y taliadau a wnaed ar ôl 1 Ebrill 2008, ac nid yw wedi cynnwys y rhwymedigaeth hon yn ei ddarpariaeth.

**10.** Felly, yn ein barn ni, dylai'r Cyngor gydnabod rhwymedigaeth o £528,000 mewn perthynas â'r cyfraniadau pensiwn ar yr elfen hon o'r setliad cyflog cyfartal yng nghyfrifon 2010-11. Mae hyn yn tybio bod pob aelod o staff yr effeithir arno yn aelod o'r Gronfa Bensiwn. Lle nad ydynt, bydd y rhwymedigaeth yn lleihau. Gallai hefyd fod yn wir, ar ôl ailasesu'r darpariaeth, bod y symiau a neilltuwyd eisoes yn ddigonol i ddiwallu'r atebolrwydd hwn, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto.

**Nid yw'r Cyngor wedi cydnabod rhwymedigaeth mewn perthynas â chapio ac ôl-ofal ar safle gwaredu gwastraff Cilgwyn.**

**11.** Mae gan y Cyngor rwymedigaeth mewn perthynas â chostau capio ac ôl-ofal safle gwaredu gwastraff Cilgwyn. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd y gost gychwynnol o gapio'r safle yn £3.114 miliwn. Ar 31 Mawrth 2011, roedd y Cyngor wedi gwario £804,000 ar y gwaith sydd ei angen i gapio'r safle, gan adael balans o £2.310 miliwn. At hynny, amcangyfrifir y bydd y gwaith capio terfynol (a amcangyfrifir ar gyfer 2024-25) yn costio £985,000 ychwanegol.

**12.** Mae'r Cyngor wedi neilltuo £800,000 fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer y costau hyn. Er mwyn cydymffurfio ag FRS12, dylai'r Cyngor fod wedi cronni'r ddarpariaeth lawn (o gostau cychwynnol) er mwyn cydnabod y rhwymedigaeth yn briodol yn natganiadau ariannol 2010-11. Yna byddwn yn disgwyl i ddarpariaeth bellach gael ei sefydlu dros amser i fodloni'r ymrwymiad pellach yn 2024-25.

**13.** Nid yw'r Cyngor wedi gwneud hynny ond mae wedi neilltuo adnodd o £2.310 miliwn yn ei gyllidebau cyfalaf ar gyfer 2011-12. Mae'n werth nodi bod £2.120 miliwn o'r swm a neilltuwyd yn y rhaglen gyfalaf yn llithriant cronnol dros y cyfnod 2006-07 i 2010-11.

**14.** Dylai'r Cyngor wneud darpariaeth o £1.510 miliwn (£2.310 miliwn llai'r £800,000 a ddarparwyd eisoes), drwy drosglwyddo symiau a neilltuwyd eisoes yn y cronfeydd cyfalaf wrth gefn.

## Camddatganiadau a gywirwyd

**15.** Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

# Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

**16.** Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

## Mae gennym ddau bryder ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

**17.** Nodwn isod ddau bryder ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol:

- Datganiadau ariannol 2010-11 yw'r rhai cyntaf i gael eu paratoi o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), ac mae hyn wedi arwain at newidiadau mawr i'r cyfrifon. Cydnabuwn fod swyddogion wedi gwneud cryn dipyn o waith i'w paratoi ar sail IFRS am y tro cyntaf. Cydymffurfiodd y Cyngor â'r gofynion i raddau helaeth, ond roedd yn or-ddibynnol ar set enghreifftiol o ddatganiadau (a baratowyd gan CIPFA), nad oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. Mae'r cyfrifon diwygiedig bellach yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion datgelu, er bod mân wyriadau yn bodoli o hyd. Yn y dyfodol, argymhellwn y dylai'r Cyngor ddefnyddio rhestr wirio'r Cod o ran datgelu i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion datgelu yn llawn.
- Rydym wedi nodi'n flaenorol bod y cyfrifon yn cynnwys nifer o falansau cyfrifon crog a dal nad ydynt wedi symud fawr ddim ers nifer o flynyddoedd. Cydnabuwn fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da i fynd i'r afael â'r rhain, ond mae angen rhoi sylw ar frys i'r balansau sy'n weddill er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu datgelu'n gywir.

## Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.

**18.** Ni chyfyngwyd ar ein gwaith a derbyniwyd y mwyafrif helaeth o'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad mewn modd amserol a defnyddiol.

## Ni thrafodwyd ac ni hysbyswyd y rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.

**19.** Nid oedd angen i ni drafod unrhyw faterion sylweddol gyda rheolwyr y Cyngor y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.

## Mae un mater arall sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdano.

**20.** Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatgelu manylion trafodion â phartïon cysylltiedig yn ei gyfrifon. Er mwyn casglu'r wybodaeth berthnasol, ysgrifennodd y Cyngor at ei aelodau yn gofyn am fanylion buddiannau partïon cysylltiedig erbyn 21 Ebrill 2011. Ar adeg paratoi'r datganiadau ariannol drafft, nid oedd 32 o aelodau wedi ymateb. Roedd 13 o ymatebion heb gael eu derbyn pan gyflwynwyd yr adroddiad hwn.

## Ni nodwyd unrhyw wendid perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.

**21.** Fel rhan o'n gwaith archwilio, ni nodwyd unrhyw wendidau sylweddol yn eich rheolaethau mewnol.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Mr Anthony Barrett
Yr Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9LJ

29 Medi 2011

Annwyl Mr Barrett,

### SYLWADAU YNGLŶN Â DATGANIADAU ARIANNOL 2010/11

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011. Hoffem gadarnhau ein bod, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, wedi gwneud ymholiadau digonol i allu cyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

### SYLWADAU RHEOLI

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau mewn perthynas â pharatoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol, ac yn cadarnhau'n arbennig bod y datganiadau ariannol yn cynrychioli barn gywir a theg yn unol â'r gofynion hynny.

Rydym yn cydnabod mai ni sy'n gyfrifol am ddylunio, gweithredu, cynnal a chadw ac adolygu'r dull rheoli mewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

#### Gwybodaeth a ddarperir

Rydym wedi darparu'r canlynol i chi:

- defnydd llawn o'r holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ei bod yn berthnasol i baratoi datganiadau ariannol fel llyfrau cyfrifon a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill; gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn i ni ei darparu at ddiben yr archwiliad; a chaniatâd i siarad â staff yr ydych chi wedi pennu bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol gael eu cam-ddatgan o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am achos o dwyll neu amheuaeth o dwyll yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Gwynedd ac sy'n cynnwys rheolwyr; gweithwyr

cyflogedig sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at waith rheoli mewnol; neu eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu amheuaeth o dwyll, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gafodd eu cyfleu gan weithwyr cyflogedig, cyn-weithwyr cyflogedig, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos o ddiffyg cydymffurfio neu amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- enw pob parti cysylltiedig a'r holl gysylltiadau a thrafodion cysylltiedig rhwng partïon yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

## SYLWADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi'u cofnodi yn y cyfrifon ac yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau sylweddol a ddefnyddiwyd i greu'r amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd yn ôl eu gwerth teg, yn rhesymol.

Mae cysylltiadau a thrafodion cysylltiedig partïon wedi'u datgelu a'u hystyried.

Mae'r holl ddigwyddiadau ar ôl dyddiad yr adroddiad sy'n gofyn am addasiad neu sydd angen eu datgelu wedi derbyn addasiad neu wedi'u datgelu.

Mae'r holl ymgyfreitha a hawliadau posibl neu wirioneddol y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u datgelu i'r archwilydd a'u hystyried, a'u datgelu'n unol â'r fframwaith perthnasol ar gyfer adroddiadau ariannol.

Nid yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau'r camddatganiadau heb eu cywiro a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a gyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Amlinellir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

Mae sawl awdurdod lleol fel cyflogwr wedi dehongli fod setliadau oedd wedi'u talu i'w gweithwyr am y colled o'r hawl i ddod ag achos am dal cyfartal yn "iawndal" fel y diffinnir o dan Rheoliad 4(2)(g) y CPLIL, ac felly yn eithriedig o'r diffiniad o "tal pensiynadwy" yn Rheoliad 4(1). Roedd SAC wedi cylchredeg arweiniad i'w archwilwyr lleol yn hwyr yn y cyfnod archwilio cyfredol sy'n dadlau nad yw setliadau o'r fath a dalwyd wedi'r 31/03/2008 yn iawndal "gwir", ac felly nid yw SAC wedi'u argyhoeddi eu bod yn eithriedig o fod yn "tal pensiynadwy".

Ddaru Cyngor Gwynedd setlo'r rhan fwyaf o geisiadau cyn 31/03/2008 ac nid oes amheuaeth gellid eithrio'r fath daliadau iawndal o fod yn "dal pensiynadwy". Rhesymeg y Cyngor i dalu'r iawndal yn 2008 oedd bod yr awdurdodau yn credu nad oedd achos i ymateb, ond roedd yn fodlon talu swm llai er mwyn osgoi ymgyfreithio i brofi hynny. P'run a'i setliadau o'r fath yn cael eu trin fel "tal pensiynadwy" neu "iawndal" (eithriedig), bydd gwir rwymedigaethau pensiwn y cyflogwr yn aros heb eu newid, gan fod y rhain yn cael eu pennu gan dal cyfredol a gafodd ei asesu gan yr actiwari yn y prisiant fel ar 31/03/2010 (ar ôl i'r iawndal gael ei dalu yn 2008).

Deallwn fod un Cwnsler wedi cefnogi'r farn fod taliadau iawndal am dal cyfartal ar ôl 31/03/2008 ddim yn bensiynadwy, ond fod Cwnsler arall wedi gwrthddweud hynny, ac mae rhai ymgynghorwyr treth wedi awgrymu dylai awdurdodau lleol eu trin fel di-bensiynadwy. Efallai bydd y dehongliad cyfreithiol yn dibynnu ar sut cafodd y taliadau iawndal eu llunio.

Er mwyn datrys y mater hwn yn derfynol cyn cau cyfrifon 2011/12, efallai bydd angen i Cyngor Gwynedd ymofyn cyngor cyfreithiol penodol. Yn y cyfamser, nid yw'r setliadau a dalwyd hyd yma wedi cael eu trin fel "tal pensiynadwy" yn datganiadau ariannol y Cyngor am 2007/08 hyd 2010/11, a does dim darpariaeth wedi'i osod o'r neilltu am gyfraniadau pensiwn ôl-syllol. Gan hynny, mae'n dderbyniol fod archwiliwr penodedig SAC yn sylwebu yn unol â hynny.

## CILGWYN – FRS 12

Mae'r archwiliwr yn ystyried nad ydym wedi cydsynio efo gofynion FRS 12 mewn perthynas â safle gwaredu gwastraff Cilgwyn, ac felly bod hyn wedyn wedi arwain at "gamddatganiad" sydd angen i mi ei egluro.

Fe ddaeth gweithgareddau ar safle Cilgwyn, a weithredwyd yn flaenorol gan Gwmni Gwastraff Môn Arfon, i ben yn Rhagfyr 2008, gyda'r angen wedyn am waith capio ac adfer, ac sydd mewn dau brif rhan, sef, y rhan cychwynol sydd yn y broses o gael ei wneud rwan, a'r capio terfynol sydd nawr wedi ei raglennu ar gyfer 2027-28.

Mae Cyngor Gwynedd wedi darparu adnoddau cyllidol llawn yn ei rhaglen gwariant cyfalaf i ariannu cwblhau y gwaith **capio cychwynol**, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2006/07 - | £100,000 |
| 2007/08 - | £450,000 |
| 2008/09 - | £958,000 |
| 2009/10 - | £500,000 |
| 2010/11 - | £917,000 |
| 2011/12 - | £190,000 |
| Cyfanswm | £3,115,000 |

Fe welir llithriad yn y rhaglen waith cyfredol ac mae'n bosib na fydd y gwaith ar y rhan capio cychwynol yn cwblhau tan 2012-13.

Tydi'r gwaith ar y **capio terfynol** nawr ddim wedi ei raglennu tan 2027-28 gyda chost, yr amcangyfrifir yn gyfredol i fod oddeutu £985,000. Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth o £800,000 tuag at y gwaith capio terfynol sydd ei angen ar safle Cilgwyn, sy'n golygu bydd angen darparu £185,000 pellach erbyn 2027-28. Yn ei gyfanrwydd, fe ystyrir hyn i fod yn sefyllfa resymol iawn i'r Cyngor ar yr amser yma.

## SYLWADAU GAN BWYLLGOR ARCHWILIO CYNGOR GWYNEDD

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau uchod a wnaed gan y rheolwyr wedi'u trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod mai ni sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith perthnasol ar gyfer adroddiadau ariannol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Archwilio ar 29 Medi 2011.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
| …………………………………………… | ……………………………………………….. |
| **DAFYDD L EDWARDS** | **CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS** |
| **PENNAETH CYLLID** | **CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| Dyddiad ……………………………. | Dyddiad ……………………………. |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd;
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad o Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

### Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalennau ... i ..., mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys cyfrifon y grŵp a chyfrifon y gronfa bensiwn, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2011 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

## Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

## Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Anthony Barrett**

**Archwilydd Penodedig**

**Swyddfa Archwilio Cymru**

**24 Heol y Gadeirlan**

**Caerdydd**

**CF11 9LJ**

**29 Medi 2011**

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| Diwygio'r naratif | Rhagair Eglurhaol - Darparwyd eglurhad ychwanegol yn y naratif | I gydymffurfio â gofyniad datgelu'r Cod Ymarfer |
| Datgeliad ychwanegol | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr<br>Ychwanegu'r datgeliad:<br>Costau nas dosbarthwyd eitem eithriadol £50.757 miliwn | I ddatgelu'r eitem eithriadol yn gywir ar ôl newid y sail ar gyfer cynnydd mewn budd-daliadau pensiwn (o RPI i CPI) |
| £6.194 miliwn | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr<br>Lleihau cost gwasanaethau £6.194 miliwn<br>Cynyddu'r warged ar ailbrisiad asedau eiddo, offer a chyfarpar £6.194 miliwn | I gydymffurfio ag un o ofynion y Cod Ymarfer i wrthbwyso lleihad mewn gwerth yn erbyn y gronfa ailbrisio wrth gefn yn y lle cyntaf. |
| Diwygio'r naratif | Ychwanegwyd y polisïau cyfrifyddu canlynol:<br>1.6 Craidd corfforaethol a democrataidd<br>1.19 Costau nas dosbarthwyd<br>Ymhelaethwyd ar y polisïau cyfrifyddu canlynol:<br>1.7 Buddiannau cyflogeion<br>1.18 Asedau hirdymor | I roi datgeliad ychwanegol ac eglurhad ychwanegol o'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cyfrifon |
| Diwygio'r naratif | Nodyn 7 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen<br>Datgeliad ychwanegol yn ymwneud ag adolygiad barnwrol sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â newidiadau i'r cynnydd mewn budd-daliadau pensiwn | I hysbysu'r darllenwr |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £825,000 | Nodyn 10 Gwariant gweithredu arall<br>Cynnydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru<br>Nodyn 12 Trethiant ac incwm grant amhenodol<br>Gostwng Incwm Treth Gyngor | I gywiro'r cam-godio |
| Nodyn ychwanegol | Nodyn 12a Treth Gyngor wedi'i hychwanegu | I gydymffurfio â gofynion datgelu'r Cod Ymarfer |
| Nodyn ychwanegol | Nodyn 12b Ardrethi Annomestig Cenedlaethol wedi'u hychwanegu | I gydymffurfio â gofynion datgelu'r Cod Ymarfer |
| £141,000 ar 31/3/11<br>£319,000 ar 31/3/10<br>£283,000 ar 1/4/09 | Nodyn 16 a Nodyn 18<br>I ddosbarthu dyledwyr hirdymor a dyledwyr byrdymor yn gywir | I gydymffurfio â'r gofynion datgelu i ddosbarthu dyledwyr yn rhai y gellir eu casglu o fewn blwyddyn a'r rhai y gellir eu casglu ar ôl blwyddyn. |
| £251,000 ar 31/3/11<br>£297,000 ar 31/3/10<br>£342,000 ar 1/4/09 | Nodyn 16 a Nodyn 21<br>I ddosbarthu credydwyr hirdymor a chredydwyr byrdymor yn gywir | I gydymffurfio â'r gofynion datgelu i ddosbarthu credydwyr yn rhai sy'n daladwy o fewn blwyddyn a'r rhai sy'n daladwy ar ôl blwyddyn. |
| £111,000 | Nodyn 21 Ffioedd Archwilio<br>I ostwng y ffioedd archwilio allanol a gronnwyd | Cronnwyd ffioedd archwilio yn ymwneud â 2011-12 yn 2010-11. |
| Nodiadau ychwanegol | Nodiadau i'r Llif Arian Parod - ychwanegwyd nodiadau 25a a 25b i roi dadansoddiad i ategu'r llif arian parod | I gydymffurfio â gofynion datgelu'r Cod Ymarfer |
| £309,982 | Nodyn 35 Partïon cysylltiedig<br>Cynyddu gwerth taliadau i gyrff cyhoeddus, elusennol a gwirfoddol pan fo aelodau wedi datgan buddiant | I gywiro tanddatganiad o ganlyniad i wybodaeth a gyflwynwyd gan aelodau yn hwyr |
| £111,472 | Nodyn 35 Partïon cysylltiedig<br>Cynyddu gwerth taliadau i gwmnïau neu fusnesau pan fo aelodau wedi datgan buddiant | I gywiro tanddatganiad o ganlyniad i wybodaeth a gyflwynwyd gan aelodau yn hwyr |
| £145,000 ar 31/3/11<br>£145,000 ar 31/3/10 | Nodyn 37 Prydlesi<br>Cynyddu'r balansau sy'n weddill ar brydlesi gweithredu | I adlewyrchu'r ymrwymiadau sy'n weddill ar brydlesi gweithredu yn gywir. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| Tabl a naratif ychwanegol | Nodyn 37 Prydlesi<br>Ychwanegwyd tabl i ddatgelu'r gwariant ar brydlesi gweithredu a godwyd ar wasanaethau yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr<br>Naratif ychwanegol i ddatgelu gwerth y taliadau prydlesi lleiaf y gall yr Awdurdod eu derbyn | I gydymffurfio â gofynion datgelu'r Cod Ymarfer |
| Diwygio'r naratif | Nodyn 42 Rhwymedigaethau Wrth Gefn<br>Naratif wedi'i aileirio | I sicrhau ei fod yn gliriach i'r darllenwr |
| £217.374 miliwn | Y Cyfrif Refeniw Tai - Nodyn 1<br>Eitem Eithriadol<br>I adlewyrchu'r cyfraniad tybiannol tuag at gostau gwariant cyfalaf lloches TAW | I roi cyfrif am y trefniant lloches TAW yn gywir |
| £6.704 miliwn | Y Cyfrif Refeniw Tai - Nodyn 1<br>Eitem Eithriadol<br>I ostwng lefel y lleihad mewn gwerth i adlewyrchu'r angen i wrthbwyso lleihad mewn gwerth yn erbyn y gronfa ailbrisio wrth gefn yn y lle cyntaf | I gydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer |
| Tabl ychwanegol yn y nodyn | Y Cyfrif Refeniw Tai - Nodyn 6<br>Tabl wedi'i ychwanegu i ddadansoddi dibrisiant a lleihad mewn gwerth yn 2009-10 a 2010-11 | I gydymffurfio â gofynion datgelu'r Cod Ymarfer |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


| Wales Audit Office | Swyddfa Archwilio Cymru |
| --- | --- |
| 24 Cathedral Road | 24 Heol y Gadeirlan |
| Cardiff CF11 9LJ | Caerdydd CF11 9LJ |
| Tel: 029 2032 0500 | Ffôn: 029 2032 0500 |
| Fax: 029 2032 0600 | Ffacs: 029 2032 0600 |
| Textphone: 029 2032 0660 | Ffôn Testun: 029 2032 0660 |
| E-mail: info@wao.gov.uk | E-bost: info@wao.gov.uk |
| Website: www.wao.gov.uk | Gwefan: www.wao.gov.uk |